
cbac wjec

# Asesiadau 2021

Cael y wybodaeth ddiweddaraf a pharhau i ddysgu.



## DEALL Y NEWIDIADAU

- Yn dilyn canslo arholiadau, bydd cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch eleni yn seiliedig ar Raddau wedi'u Pennu gan y Ganolfan.
- Bydd eich ysgol neu goleg yn dyfarnu graddau yn seiliedig ar dystiolaeth briodol o'ch dysgu fel sydd wedi'i amlinellu yn y fframweithiau asesu cymwysterau.

## GWYBOD SUT BYDDWCH CHI'N CAEL EICH ASESU

- Bydd eich ysgol neu goleg yn dewis y dystiolaeth briodol y byddan nhw'n ei defnyddio i lywio'ch gradd. Gallai hyn gynnwys ffug-arholiadau, deunyddiau eraill a ddarparwyd gan CBAC, Asesu Di-arholiad ac unrhyw waith arall sydd wedi'i asesu.
- Bydd eich ysgol neu goleg yn datblygu eu dull asesu a sicrhau ansawdd, yn unol â chanllawiau y bydd CBAC yn eu darparu. Pan fydd eu dull yn derfynol, bydd eich ysgol neu goleg yn rhoi gwybod i chi sut byddwch chi'n cael eich asesu ar gyfer pob pwnc.





## PARHAU I DDYSGU

- Dylech chi barhau i ganolbwyntio ar eich astudiaethau a pharhau i ddysgu.
- Mae cyfoeth o adnoddau dysgu AM DDIM i'ch helpu chi ar:
  - www.cbac.co.uk/adnoddau
  - www.bbc.co.uk/bitesize
  - hwb.gov.wales

## BYDDWCH YN BAROD I SYMUD YMLAEN!

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn meithrin yr holl ddealltwriaeth, sgiliau a gwybodaeth am y pwnc y mae ei angen arnoch i symud ymlaen.

